# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Cymru

# Diweddariad 2020-21

Adroddiad gan Bartneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru



**Partneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru** *Yn gweithio'n lleol gyda'n gilydd i wella ardaloedd morol gwarchodedig Cymru*

# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Cymru Diweddariad 2020/21

## Cyflwyniad

Sefydlwyd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn helpu i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer y gwaith o reoli Ardaloedd ledled y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Ers hynny, mae'r grŵp wedi llunio Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae'r fframwaith yn egluro'r strwythur ar gyfer gwella'r gwaith o reoli'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2018-23, ac ar gyfer gwella cyflwr y rhwydwaith. Yn dilyn hynny, lluniwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer 2020-21. Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd gan y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn cynnal a gwella'r gwaith o reoli'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ledled Cymru ac er mwyn cynnal a gwella cyflwr y rhwydwaith.

Cytunodd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ei bod yn bwysig cynnal cysylltiadau rhwng y rhwydwaith a'r lefel leol. Felly, cafodd y cam gweithredu canlynol ei gynnwys yn y cynllun gweithredu:

'Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith...a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, pan fo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o edrych am gyfleoedd ariannu.'

## Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phump o'r 134 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd yn nyfroedd Cymru. Fodd bynnag, maent yn cynrychioli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig mwyaf, ac felly'n cynnwys cyfran fawr o rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae llawer o'r Ardaloedd llai o faint, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd RAMSAR, yn dod o fewn ffiniau'r pum safle ac yn helpu i'w hategu. Bydd prosiectau a gyflawnir o fewn y pum Ardal Forol Warchodedig bob amser yn ystyried gofynion yr Ardaloedd llai o faint sydd ynddynt yn ogystal ag ystyriaethau eraill, ee Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd rhai o'r prosiectau hefyd yn helpu i reoli'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig newydd ar gyfer Llamidyddion yn ogystal â safleoedd presennol sydd heb Grŵp Awdurdodau Perthnasol, ee Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) y Fenai a Bae Conwy. Caiff llawer o'r prosiectau a amlinellir yn yr adroddiad hwn eu nodi fel camau gweithredu lleol yng Nghynllun Gweithredu'r Rhwydwaith 2020-21, Atodiad 1.

Dyma'r Grwpiau Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:

- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Bae Ceredigion
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Sir Benfro Forol
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
- Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren

## Gwaith arall

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau sydd wedi'u cyflawni gan y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a swyddogion safle'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig a restrir uchod, a fydd yn helpu i wella neu gynnal cyflwr safle. Fodd bynnag, mae llawer o'r tasgau a gyflawnir gan y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a'r swyddogion safle, sy'n hanfodol er mwyn parhau i reoli safleoedd, yn dasgau nad ydynt yn rhan o brosiectau unigol. Mae'r rheini yn cynnwys y tasgau canlynol ymhlith eraill:

- Cynnal y Grŵp Awdurdodau Perthnasol a'r Grŵp Cyswllt
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Codi ymwybyddiaeth ac addysgu
- Chwilio am ffynonellau cyllid a sicrhau cyllid
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- Darparu cyngor a gwybodaeth
- Cysylltu ag eraill a gweithio mewn partneriaeth
- Gweithio gyda swyddogion safle eraill i sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith
- Bod yn rhan o grwpiau amrywiol er mwyn sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cynrychioli ac er mwyn hybu cydweithio, ee y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol ac ati
- Cyfrannu i becynnau gwaith cenedlaethol, ee Prosiect Gweithgareddau Na Ellir eu Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, cysylltu ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU ac ati.

Mae cyllid ar gyfer swyddogion safle Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd. Caiff hynny ei adlewyrchu yn nifer y diwrnodau bob wythnos y mae gan bob safle swyddog penodedig. Mae'n amrywio o un i bum diwrnod yr wythnos, gweler tabl 1. Mae hynny yn ei dro'n adlewyrchu faint o waith sy'n bosibl ar y safle.

| Ardal Forol Warchodedig | Nifer y diwrnodau bob wythnos |
|---|---|
| ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | 5 |
| ACA Bae Ceredigion | 3 |
| ACA Sir Benfro Forol | 2.9 |
| Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | 1 |
| Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren | 2 |

Tabl 1: Nifer y diwrnodau bob wythnos y mae gan bob Ardal Forol Warchodedig swyddog safle penodedig yn gweithio iddi

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae manteision gweithio mewn partneriaeth yn hysbys eisoes ac mae Swyddogion ACA ledled Cymru wedi bod yn cydweithio ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd er mwyn rhannu arfer gorau, rhannu adnoddau a thrafod syniadau i ddatrys problemau cyffredin. Mae'r Swyddogion hefyd yn cydweithio ar nifer o brosiectau ar lefel y rhwydwaith, sy'n cyflawni ar sail camau gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r gwaith a gyflawnir ar y cyd eleni'n cynnwys prosiectau'n ymwneud â:

- Lleihau sbwriel
- Lleihau aflonyddu ar famaliaid ac adar y môr.

## Egwyddorion rheoli

Datblygodd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig bum egwyddor er mwyn llywio'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer rheoli'r rhwydwaith. Mae pob cam gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu i o leiaf un o'r pum egwyddor rheoli. Mae camau gweithredu lleol yn cyfrannu'n bennaf i egwyddor rheoli 5, sef gwaith rheoli ehangach. Ond mae llawer ohonynt yn cyfrannu i egwyddorion rheoli eraill hefyd.

| **Egwyddorion rheoli** |
| --- |
| **MP1**: Cynllunio strategol |
| **MP2**: Prosesau rheoleiddio, caniatáu datblygiadau ac asesu |
| **MP3**: Cyngor a chanllawiau rheoli |
| **MP4**: Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, y pwysau arnynt a'r bygythiadau y maent yn eu hwynebu, i osod sail ar gyfer gwaith rheoli |
| **MP5**: Gwaith rheoli ehangach |

Tabl 2: Egwyddorion rheoli

# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – Diweddariad 2020/21

Alison Palmer Hargrave

## Tir a Môr Llŷn / O'r Mynydd i'r Môr



Mae gwaith yn parhau ar ddau brosiect ar lefel dalgylch o fewn PLAS. Mae Tir a Môr Llŷn yn ymdrin â Phenrhyn Llŷn ac mae wedi sicrhau cyllid am gyfnod o dair blynedd gan Gronfa'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Mae O'r Mynydd i'r Môr yn ymdrin â thraean isaf yr ACA ac mae wedi sicrhau cyllid am gyfnod o bum mlynedd drwy'r Gronfa Tirweddau mewn Perygl. Nod y prosiectau hyn yw rheoli'r amgylchedd morol, yr amgylchedd dŵr croyw a'r amgylchedd ar y tir gyda'i gilydd. AH yw'r arweinydd morol ar gyfer y ddau brosiect hyn. Caiff llawer o'r prosiectau isod eu cyflawni dan y naill brosiect neu'r llall, neu dan y ddau ohonynt. Yn ogystal â gwaith cyflawni prosiectau, mae llawer o amser wedi'i dreulio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys.

## Ansawdd dŵr



Mae ansawdd dŵr yn broblem y mae llawer o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar draws y rhwydwaith yn ei hwynebu. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddalgylch Afon Daron yn Llŷn. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Afon Daron wedi'i samplu yn rheolaidd mewn sawl lleoliad dros gyfnod estynedig. Cynhaliwyd contract hefyd i gerdded y dalgylch cyfan er mwyn nodi ffynonellau llygredd. O ganlyniad, lluniwyd adroddiad er mwyn nodi ffynonellau llygredd a darparu argymhellion a fydd yn arwain at wella ansawdd dŵr. Yna, cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus gyda thirfeddianwyr i gyflwyno'r canlyniadau a thrafod yr argymhellion. Yn 2020-21, canolbwyntiwyd ar weithio gyda thirfeddianwyr i weithredu argymhellion yr adroddiad. Mae'r prosiect wedi gallu ariannu gwaith megis ffensio.

# Sbwriel



Yn PLAS, mae prosiectau sbwriel yn canolbwyntio ar nifer o wahanol elfennau, sef yn bennaf glanhau traethau, monitro sbwriel a lleihau sbwriel yn ei darddiad. Mae nifer o sesiynau glanhau traethau wedi cael eu cynnal ledled PLAS. Mae'r ymgyrch I'r Gwellt â'r Gwelltyn wedi parhau, gyda llawer o fusnesau'n ymrwymo i roi'r gorau i ddefnyddio gwellt neu'n ymrwymo i newid i fersiynau bioddiraddiadwy. Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo i gynnal a chadw gorsafoedd #2minutebeachclean. Bu PLAS hefyd yn gweithio gyda thîm o brifysgolion a hwyliodd gwch hir o Gymru i ddyfroedd yr Arctig er mwyn astudio effeithiau plastig. Defnyddiwyd lluniau a dynnwyd a ffilm a recordiwyd yn ystod y fordaith honno i greu arddangosfa sbwriel PLAS a digwyddiad i randdeiliaid. Bu AH hefyd yn cydlynu gwaith ar adolygiad sbwriel Cymru.

# Pecyn addysg

Mae addysg yn elfen allweddol o waith rheoli morol. Mae AH wedi bod yn arwain partneriaeth i ddatblygu pecyn addysg dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd. Bydd y pecyn yn rhoi sylw i'r amgylchedd morol, yr amgylchedd dŵr croyw a'r amgylchedd ar y tir, yn unol â'r dull rheoli sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd. Mae'r pecyn addysg, rhai fideos 'sut mae gwneud', pecynnau offer a phoster bron yn barod. Bydd y pecyn gorffenedig ar gael i'w lawrlwytho o wefan PLAS.

# Y Cod Morol




Mewn partneriaeth ag ACA Bae Ceredigion a rhanddeiliaid, cynhyrchwyd Cod Morol newydd ar gyfer PLAS yn 2016. Aeth AH ati wedyn i gynhyrchu cod ar gyfer Ynys Môn a Chonwy. Bellach, mae'r un cod yn cael ei hyrwyddo ar draws y pedair sir ac mae wedi'i fabwysiadu a'i ddosbarthu gan bob un o'r awdurdodau lleol. Yn 2020-21, canolbwyntiwyd ar ddosbarthu a hyrwyddo'r cod. Dechreuwyd hefyd ar y gwaith o ddatblygu deunydd hyrwyddo ategol ar gyfer y cod ac ar adnabod cyfleoedd ehangach i hyrwyddo'r cod ymhlith cynulleidfaoedd perthnasol sy'n anos eu cyrraedd.

# Cynllun bioddiogelwch PLAS

Mae AH wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer PLAS er mwyn helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymledu. Eleni, mae AH wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar adnabod rhanddeiliaid, ymgysylltu â nhw a chodi ymwybyddiaeth. Roedd hynny'n cynnwys cynnal gweithdy ar-lein er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr a rheolwyr safle.

# Aflonyddu ar forloi bach

Cafodd y paneli ynghylch aflonyddu ar forloi bach eu gosod eleni eto gan ddefnyddio'r rhwydwaith o gysylltiadau a grëwyd y llynedd.

## Prosiect morwellt Porthdinllaen



Mae'r prosiect hwn yn edrych ar opsiynau i leihau effaith mwrio ac angori ar forwellt. Gwely morwellt Porthdinllaen yw un o'r gwelyau morwellt mwyaf helaeth a mwyaf dwys yng Nghymru. Eleni, mae'r prosiect wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer treialu systemau mwrio datblygedig yn ogystal ag opsiynau ar gyfer ailhadu. Caiff yr opsiynau hyn eu rhoi ar waith yn 2021-22. Mae'r gwaith wedi bod yn canolbwyntio hefyd ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Ymwybyddiaeth ac addysg

Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn chwarae rôl hanfodol mewn gwaith rheoli morol. Er mwyn cyrraedd cynifer o bobl ag sy'n bosibl, mae AH:




- wedi cyhoeddi ail rifyn o gylchgrawn PLAS - O Dan y Don
- wedi bod yn defnyddio cyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, ac wedi bod yn cynnal gwefan PLAS
- wedi ysgrifennu erthyglau ar gyfer nifer o gyhoeddiadau gan gynnwys papurau a llythyrau newyddion lleol
- wedi bod ar orsafoedd radio lleol i drafod materion morol
- wedi rhoi nifer o gyflwyniadau ar-lein
- wedi trefnu a mynychu nifer o weithdai ar-lein
- wedi ymweld ag ysgolion lleol pan oedd cyfyngiadau Covid yn caniatáu hynny
- wedi hyrwyddo ffilmiau PLAS
- wedi cyfarfod (ar-lein) â nifer fawr o grwpiau a sefydliadau er mwyn hyrwyddo PLAS a hybu gweithio mewn partneriaeth.

## Cyfrannu i waith cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Bu AH yn gweithio gyda Swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru i gyflawni allbynnau ar gyfer dau brosiect sy'n cael eu gweithredu ar lefel y rhwydwaith, sef aflonyddu ar rywogaethau a sbwriel yn y gymuned, a ariennir gan Gynllun Gweithredu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. AH oedd Rheolwr Prosiect y ddau brosiect, ac roedd y rôl honno'n golygu:

- Dirprwyo gwaith yn briodol
- Rheoli'r cyllid
- Adrodd wrth Lywodraeth Cymru
- Sicrhau bod yr allbynnau'n cael eu cyflawni'n effeithiol.

Roedd yr allbynnau'n cynnwys:

- Adroddiad: Adolygu effeithiolrwydd y paneli ynghylch aflonyddu ar forloi bach
- Adroddiad: Plastigau yn ein hamgylchedd
- Cynllun ar gyfer ymgysylltu trwy gyfryngau cymdeithasol
- Digwyddiadau hyfforddiant ar-lein.

Bu AH yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd i adolygu'r camau gweithredu ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn y gronfa ddata o gamau gweithredu.  Caiff y wybodaeth honno ei bwydo wedyn i gynllun rheoli'r safle.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu am ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, cysylltwch ag Alison Hargrave alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru neu ewch i wefan Pen Llŷn a'r Sarnau a'i gyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r dolenni cyswllt isod.



# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Bae Ceredigion – Diweddariad 2020/21

Melanie Heath

Yn amlwg, roedd 2020 – 2021 yn flwyddyn wahanol iawn i'r arfer.

Dechreuodd y tymor â'r cyfarfod arferol i sgiperiaid ganol mis Mawrth er mwyn sicrhau bod yr holl gwmnïau teithiau cychod yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Morol. Ddiwedd blwyddyn ariannol 2019 – 2020, prynwyd llawer o barau o sbienddrychau i'w rhannu â gweithredwyr teithiau cychod er mwyn eu cynorthwyo i gadw'r pellter gofynnol, sef 100 metr, oddi wrth y nythfeydd adar a'r safleoedd lle mae morloi yn dod i'r tir. Cytunwyd ar y broses ar gyfer eu dosbarthu ym mis Mawrth ond ni chafodd y broses ei gweithredu, i ddechrau oherwydd nad oedd teithiau cychod yn cael eu cynnal, ac o fis Gorffennaf ymlaen oherwydd yr angen i atal y perygl y byddai COVID-19 yn ymledu am fod teithwyr yn rhannu cyfarpar.

Ni fu modd i ni gynnal y Patrôl Cychod er mwyn annog defnyddwyr pob math o gychod ac offer sy'n mynd allan i'r môr – o'r sawl sy'n snorcelio i'r sawl sy'n defnyddio cychod modur – i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Morol, yn rhannol oherwydd y cyfyngiadau ac yn rhannol oherwydd diffyg cyllid parhaus.

Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd a oedd yn awgrymu bod dolffiniaid yn treulio mwy o amser yn eu mannau bwydo ger y glannau tra oedd lefel gweithgarwch pobl ar y môr yn isel iawn. Fodd bynnag, gan na allai'r sesiynau Gwylio Dolffiniaid, Llamidyddion a Brain Coesgoch fynd rhagddynt yn ystod rhan helaeth o ddechrau'r tymor, mae'n anodd dangos hynny.

Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y flwyddyn ariannol, bu Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig yn canolbwyntio ar waith yn ymwneud â TGCh, a oedd yn cynnwys ychwanegu data'r sesiynau Gwylio Dolffiniaid, Llamidyddion a Brain Coesgoch at y gronfa ddata a llunio'r adroddiadau diweddaraf ynghylch gwylio dolffiniaid.

Ni fu modd i Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig gynnig yr ymweliadau addysgol arferol ag ysgolion na digwyddiadau cyhoeddus eraill yn ystod y flwyddyn.

Bu'n rhaid cadw Canolfan Ymwelwyr yr Ardal Forol Warchodedig ar gau drwy'r flwyddyn gan nad oes digon o le ynddi i alluogi'r cyhoedd i gadw pellter cymdeithasol.

Bu Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig yn cynnal sesiynau Gwylio Dolffiniaid, Llamidyddion a Brain Coesgoch yn rheolaidd mewn gwahanol leoliadau ar hyd yr arfordir, yn unol â'r cyfyngiadau, er mwyn cyflawni'r gwaith y byddai gwirfoddolwyr yn ei wneud fel rheol.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi roedd rhai o'r gwirfoddolwyr, ond nid pob un ohonynt, yn teimlo ei bod yn ddiogel iddynt ailafael mewn gweithgareddau gwylio dolffiniaid ac roeddent yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny. Mae nifer a dosbarthiad cofnodion y sesiynau gwylio'n is o lawer nag yn ystod blynyddoedd blaenorol, a bydd yn anodd cymharu'r data o ganlyniad i hynny.

Wedi i'r cyfyngiadau gael eu codi, treuliodd Swyddog yr Ardal Forol Warchodedig amser yn rheolaidd ar y pier yng Ngheinewydd, ar y traethau ac ar lwybr yr arfordir. Roedd y camau gweithredu a gyflawnwyd yno yn cynnwys dosbarthu'r amryw daflenni dehongli a oedd yn cynnwys gwybodaeth am hela crancod a gwybodaeth am forloi. Bu'r Swyddog hefyd yn dosbarthu copïau o'r cod ymddygiad i'r

sawl a oedd yn mynd allan i'r môr mewn caiacau ac ar badlfyrddau o draethau Ceinewydd, ac yn gosod y paneli tymhorol ynghylch Sabellaria a morloi mewn mannau allweddol ar hyd arfordir Ceredigion.

Yn yr hydref, gwelwyd mwy o forloi bach ar nifer fwy o draethau nag yn ystod blynyddoedd blaenorol. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hynny oedd bod llai o bobl nag arfer ar y traethau pan oedd y morloi beichiog yn chwilio am draethau addas i eni eu rhai bach arnynt yn gynharach yn y flwyddyn, a'u bod yn teimlo ei bod yn ddiogel iddynt ddychwelyd yno i eni eu rhai bach ym mis Awst/Medi/Hydref. Fodd bynnag, yn yr hydref, roedd nifer yr ymwelwyr â thraethau Ceredigion yn uwch o lawer nag yn ystod blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, oherwydd bod gan bobl ddiddordeb cynyddol mewn byd natur ond nad oedd ganddynt fawr ddim profiad na dealltwriaeth ohono, aflonyddodd pobl ar gyfran sylweddol o'r morloi bach a'u mamau a bu'n rhaid i forloi bach gael eu hachub gan yr RSPCA neu sefydliadau sy'n achub anifeiliaid y môr. Bydd y profiad hwn yn cyfrannu i Gynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion ar gyfer 2021 – 2022.

Cafodd gwefan ACA Bae Ceredigion ei hacio, ond erbyn hyn mae wedi'i diweddaru a'i hail-lansio gan ddefnyddio darparwr gwahanol.

I gael rhagor o wybodaeth am ACA Bae Ceredigion, anfonwch e-bost i ecology@ceredigion.gov.uk neu biodiversity@ceredigion.gov.uk.





# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Sir Benfro Forol – Diweddariad 2020/21

Sue Burton

**SWEPT (*Surveying the Waterway Environment for Pollution Threats*)**
Roedd SWEPT yn brosiect llwyddiannus gwyddoniaeth y bobl, a fu'n edrych ar ansawdd dŵr. Fe'i cynhaliwyd yn 2018-19 ac fe'i hariannwyd yn wreiddiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn iddo'n ddiweddarach gael arian gwobr gan *The Park Protector Award*, sef cynllun gan Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol, a chyllid gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro a fu'n gymorth i rannu canfyddiadau'r prosiect a gwneud gwaith dilynol.





*Mae pridd a dŵr ffo sy'n llawn nitradau yn llifo o dir amaethyddol i ddyfrffordd Aberdaugleddau ac yn peri i facroalgâu dyfu'n ormodol. Mae'r matiau hyn o algâu gwyrdd yn mygu'r fflatiau llaid a'r morfa heli yn yr aber ac maent ar eu hanterth yn ystod misoedd cynnes yr haf pan all y matiau ddod yn rhydd ac achosi dolur llygad, a gwrthdaro â gweithgareddau hamdden a physgota/dyframaethu yn ogystal ag effeithio ar fywyd gwyllt. ©Sue Burton*

O ganlyniad i Covid-19, ni fu modd rhannu profiad prosiect SWEPT tan fis Medi 2020. Yn y pen draw, cynhaliwyd y digwyddiad rhannu profiad ar Zoom ar 28 Medi. Roedd 75 o bobl yn bresennol ynddo a gwnaeth llawer mwy wylio'r recordiad yn ddiweddarach. Mae'r cyflwyniadau i'w gweld ar wefan yr ACA www.PembrokeshireMarineSAC.org.uk (ar y dudalen ar gyfer y newyddion diweddaraf) lle ceir dolenni cyswllt ag adroddiad SWEPT a'r atodiadau. (Dylid nodi ei bod yn hen bryd diweddaru gwefan yr ACA, a bwriedir gwneud hynny cyn gynted ag y bydd adnoddau'n caniatáu.) Cafwyd adborth cadarnhaol am y digwyddiad, a oedd yn cynnwys y ffaith ei fod wedi ysbrydoli prosiectau posibl mewn mannau eraill yng Nghymru ac ar Ynys Wyth. Rhannwyd gwybodaeth am brosiect SWEPT hefyd yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth Cymru a gynhaliwyd ar-lein ar 24 Tachwedd, ac yn nigwyddiad Datganiad Ardal Forol Cyfoeth Naturiol Cymru, "Ein harfordir a'n moroedd", a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021. Aeth Swyddog yr ACA yn ei blaen i gefnogi prosiect yng ngogledd Sir Benfro a ysbrydolwyd gan SWEPT, a bu'n helpu i ddod o hyd i gyllid ar ei gyfer. Adeg ysgrifennu'r diweddariad hwn, mae prosiect arall sy'n defnyddio methodoleg SWEPT wedi'i gynnal ar Afon Penfro.

Y gobaith yw y bydd enwi ardal Afon Cleddau ac Aberdaugleddau yn ddalgylch cyfle, ynghyd â'r newyddion a gafwyd ym mis Ionawr 2021 ynghylch y rheoliadau amaethyddol newydd a gaiff eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2021, yn golygu y bydd modd lleihau lefelau'r maetholion

sy'n cyrraedd yr ACA forol gan helpu'r ddyfrffordd i gyrraedd y statws 'da' sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2027 a chyfrannu at wella cyflwr nodweddion yr ACA.

Yn ystod 2020-21, ymgymerodd Swyddog yr ACA â phrosiect dilynol hefyd a oedd yn golygu mynd â SWEPT (Surveying the WELSH Environment for Pollution Threats) i arfordir agored Sir Benfro. Cynhaliwyd y prosiect hwn mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae canlyniadau ffosffadau a nitradau o 81 o safleoedd ar yr arfordir agored yn cael eu dadansoddi a'u cofnodi ar hyn o bryd. Roedd rhai o'r canlyniadau ymhlith yr ystod amrywiol o ganlyniadau a gofnodwyd yn dangos lefel uchel iawn o lygredd.

(Mae SWEPT yn cyfrannu hefyd at Gam Gweithredu 15, sef "Archwilio sut y gellir cymhwyso'r canlyniadau o brosiectau peilot ar lygredd gwasgaredig ac atmosfferig ym Mhen Llŷn a'r Sarnau, ardal forol Sir Benfro ac Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith".)

**Adfer morwellt.**
Mae Swyddog yr ACA wedi parhau i gefnogi'r prosiect Seagrass Ocean Rescue. Gwnaed mwy o waith plannu hadau yn ystod hydref 2020 er mwyn cwblhau'r 2 hectar yn Dale; plannwyd dros 1 filiwn o hadau i gyd. Gwelwyd llawer o blanhigion aeddfed yn yr ardal adfer; mewn llawer o fannau mae'r clystyrau'n eithaf trwchus. Er gwaetha'r arwyddion hyn o dyfiant, mae'r planhigion wedi bod yn araf yn egino, a hynny'n ôl pob tebyg oherwydd y modd y cafodd yr hadau eu storio yn ystod gaeaf 2019/20. Bydd Prifysgol Abertawe yn parhau i fonitro'r safle yn 2021 er mwyn asesu llwyddiant yr egino yn gyffredinol. Mae adroddiad manwl sy'n crynhoi'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno i WWF a gomisiynodd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Defnyddiodd Swyddog yr ACA y gwersi hyn wrth gyflwyno anerchiad (gyda Fforwm Arfordir Sir Benfro) ar bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid, mewn dau ddigwyddiad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021, sef digwyddiad Datganiad Ardal Forol Cyfoeth Naturiol Cymru, *"Ein harfordir a'n moroedd",* a chynhadledd ar-lein ynghylch adfer cyflwr cefnforoedd.

Mae Swyddog yr ACA yn ysgrifennydd Grŵp Rhanddeiliaid Morwellt Dale ac mae cyfarfodydd rhithwir wedi'u cynnal er mwyn helpu i gynnal diddordeb rhanddeiliaid yn y gwaith ac er mwyn trafod a chytuno trefniadau ar gyfer mannau mwrio i ymwelwyr ac arwyddion.



*Egin morwellt yn ardal adfer Dale pan oedd lefel y dŵr yn eithriadol o isel ym mis Medi 2020. ©Sue Burton*

Mae Swyddog yr ACA hefyd wedi bod yn gweithio gyda Project Seagrass er mwyn helpu i hwyluso gwaith adfer morwellt yng Nghymru yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys sefydlu Rhwydwaith Morwellt Cymru.

**Pecyn Addysg Dwyieithog ACA Sir Benfro Forol.**
Cafwyd oedi eto o ran cyhoeddi'r Pecyn Gweithgareddau Glan Môr oherwydd cyfyngiadau ar amser Swyddog yr ACA, ond ceir brwdfrydedd cynyddol yn ei gylch ac mae mwy o gysylltiadau wedi'u creu

er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu'r pecyn pan fydd wedi'i gwblhau. Mae adnoddau unigol megis canllaw i wylwyr bywyd gwyllt a bingo'r traeth yn dal i gael eu defnyddio.

**Cyfrannu i waith cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig.**
Bu Swyddog yr ACA yn gweithio gyda Swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru er mwyn helpu i gyflawni allbynnau ar gyfer y ddau brosiect ar y cyd, sef aflonyddu ar rywogaethau a sbwriel yn y gymuned, a ariennir gan Gynllun Gweithredu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bu'r Swyddog yn arwain ffrydiau gwaith a oedd yn ymwneud â'r cod morol, gan gomisiynu Fforwm Arfordir Sir Benfro i helpu i hwyluso gweithdy a digwyddiadau hyfforddiant ynghylch rheoli gweithgareddau hamdden cynaliadwy, a datblygu ymgyrch ar y cyd ar gyfryngau cymdeithasol.

Roedd Swyddog yr ACA hefyd yn falch o gael y cyfle i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar adolygu camau gweithredu ar gyfer ACA Sir Benfro Forol er mwyn helpu i wella/cynnal cyflwr nodweddion. Mae llawer o'r camau gweithredu hynny'n berthnasol i sawl safle neu'n berthnasol ar lefel genedlaethol. Y gobaith yw y bydd mwy o gydweithio yn arwain at brosiectau addas er mwyn rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith.

Cedwir mewn cysylltiad yn rheolaidd ag ymarferwyr Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn rhannau eraill o'r DU; mae'r rhwydwaith yn un defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer da.

**Gwaith ychwanegol.**
Yn ogystal â'r prosiectau uchod, a gymerodd y rhan fwyaf o oriau gwaith rhan-amser Swyddog yr ACA yn ystod 2020-21, bu'r Swyddog yn cyfrannu i'r gwaith canlynol hefyd:

- Adfer wystrys brodorol yn nyfrffordd Aberdaugleddau, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adolygiad rheoli effaith palu am abwyd ar y Gann, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Rheoli gweithgareddau hamdden morol lleol – cyfrannu at gynllunio gweithgareddau hamdden lleol a chefnogi gwaith Fforwm Arfordir Sir Benfro (Cod Morol Sir Benfro a Siarter Awyr Agored Sir Benfro) a oedd yn cynnwys helpu gyda hyfforddiant ynghylch glannau creigiog.
- Gwneud dalgylchoedd yn fwy gwydn, dan arweiniad PLANED a Fforwm Arfordir Sir Benfro.
- Gwaith ar brosiect pysgodfeydd lleol yn rhan o'r Grŵp Gweithredu lleol ar gyfer Cyswllt â Physgotwyr.
- Gwaith codi ymwybyddiaeth a oedd yn cynnwys cynnal cyfrifon Twitter a Facebook ac ymateb i ymholiadau *ad hoc*. Cynhaliwyd gwaith ffilmio ar gyfer rhaglen *Coast and Country* ITV Wales ym mis Medi 2020.



*Llun o leden ar wastadeddau Gann, a dynnwyd yn ystod taith maes gyda Chymdeithas Bywyd Gwyllt Morol Porcupine ar 20 Medi 2020. ©Sue Burton*

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu am ACA Sir Benfro Forol, cysylltwch â Sue Burton sue.burton@mhpa.co.uk

@PembsMarineLife @PembrokeshireMarineWildlife

# Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin – Diweddariad 2020/21

Judith Oakley

Ar hyn o bryd, dim ond am un diwrnod yr wythnos y caiff Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ei gyflogi. Y rheswm am hynny yw'r cyllid sydd ar gael gan bartneriaid y Grŵp Awdurdodau Perthnasol neu'r cyllid allanol arall sydd ar gael. Felly, mae'n anodd gwneud llawer o waith prosiect mewn cyn lleied o amser.

Mae'r prif feysydd gwaith yn cynnwys:

- gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol
- mynychu cyfarfodydd allanol a rhoi adborth i'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol
- ymateb i ymgyngoriadau
- cysylltu â Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd eraill Cymru
- cysylltu â swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y safle
- ateb ymholiadau
- cyfrannu i geisiadau am gyllid/prosiectau.

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae swyddog y safle wedi cymryd rhan mewn dau brosiect ar y cyd â Swyddogion ACA eraill Cymru. Cafodd y prosiectau hynny eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac roeddent yn cynnwys: gwaith ar sbwriel morol a sbwriel plastig a gwaith prosiect ynghylch aflonyddu ar rywogaethau morol, a oedd yn cynnwys creu rhai deunyddiau ar y cyd i godi ymwybyddiaeth. Bu swyddog y safle'n gyfrifol am ddrafftio Cod Arfordirol/Glan Môr i Gymru gyfan.

Mae amryw brosiectau ar y gweill sy'n ymwneud â morfa heli Gogledd Penrhyn Gŵyr, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent yn cynnwys ymchwil i ddeall ymhellach effeithiau gorbori gan ddefaid ar y safle, a deall dŵr ffo o'r morfa heli ac effaith hynny ar ansawdd dŵr ac iechyd pysgod cregyn yng Nghilfach Tywyn.

Mae'r daflen wybodaeth am y safle, a ddosbarthwyd y llynedd, yn parhau i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysig ac o ddynodiadau cadwraeth Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.

Mae swyddog y safle wedi cyfrannu i waith Cyngor Abertawe ar fioamrywiaeth er mwyn sicrhau bod Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn cael sylw yn yr holl waith hwnnw, a oedd yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd ar Gynllunio Morol.

Bu'n rhaid i swyddog y safle fynychu nifer o gyfarfodydd a gweithdai ar-lein yn sgil yr achos o ollwng diesel yn Llangennech ar 26 Awst 2020.



Er mwyn asesu unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r achos o ollwng diesel yn Llangennech, bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn samplu bywyd morol ger Pont Llwchwr lle gwelwyd y diesel ar y marc penllanw ac mewn gwaddodion ar yr wyneb hefyd. (Llun: Cyfoeth Naturiol Cymru)

O ganlyniad i Covid-19, mae swyddog y safle wedi bod yn gweithio gartref ers mis Mawrth 2020. Mae'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol wedi bod yn cynnal cyfarfodydd ar-lein sydd wedi bod yn llwyddiannus ac sydd wedi denu cynrychiolaeth dda o blith y partneriaid.


I gael rhagor o wybodaeth am Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, cysylltwch â Judith Oakley: cbeems.officer@gmail.com.

# Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren – Diweddariad 2020/21

Katie Havard-Smith

## Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a Chynllun Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol

Roedd Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren (y Gymdeithas) yn falch o gyhoeddi Cynllun Rheoli newydd, sef Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren, a Chynlluniau Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol ar gyfer y cyfnod 2018-2023 ym mis Mai 2018. Mae Cynllun Rheoli'r Gymdeithas yn fodd i'r Awdurdodau Perthnasol bennu'r fframwaith ar gyfer rheoli eu gweithgareddau, naill ai'n wirfoddol neu drwy ddeddfwriaeth, er mwyn cyflawni amcanion y safle o ran cadwraeth natur. Mae'n ystyried a yw gweithgareddau'n achosi effeithiau niweidiol ac, os felly, sut y gall Awdurdodau Perthnasol reoleiddio gweithgareddau o'r fath er mwyn atal niwed i nodweddion ac is-nodweddion y safle. Gall effaith gweithgaredd ddibynnu ar ei raddfa, ei leoliad a'i amlder, yn ogystal ag ar ba mor fregus yw nodwedd.





Mae Cynlluniau Gweithredu yn cynnig modd i Awdurdodau Perthnasol fynd i'r afael â'r canlynol:

- Gweithgareddau y nodwyd ei bod yn debygol eu bod yn achosi i'r safle ddirywio neu'u bod yn aflonyddu'n sylweddol ar y safle;
- Gweithgareddau y mae eu heffeithiau'n anhysbys (hy nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i benderfynu i ba raddau y mae'r safle yn dirywio neu i ba raddau y mae'r gweithgareddau'n aflonyddu ar y safle);
- Cynlluniau a phrosiectau penodol parhaus ac ailadroddus eu natur y gallai'r Gymdeithas hwyluso'r gwaith o lunio canllawiau ar eu cyfer.

*Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren 2018-2023*

Mae Cynlluniau Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol yn adrodd ynghylch cyfnod o flwyddyn sy'n ymestyn o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Mae adroddiad 2019-2020 ar gael o ofyn amdano, a bydd adroddiad 2020-2021 ar gael yn ddiweddarach eleni.

## Canllawiau Arfer Da Aber Afon Hafren




Mae'r Gymdeithas wedi nodi bod aflonyddwch gan weithgareddau hamdden yn un o'r prif broblemau sy'n effeithio ar statws cadwraeth Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Aflonyddwch yw unrhyw weithgaredd neu sŵn a allai newid ymddygiad anifail (wrth fwydo, gorffwys neu fridio) neu newid strwythur cynefin. Gall aflonyddwch mynych fygwth bodolaeth rhai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd allweddol a ddynodwyd dan Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren.

*Canllawiau Arfer Da Aber Afon Hafren yn Gymraeg a Saesneg*

Er i'r canllawiau gael eu llunio yn 2017, mae eu hyrwyddo'n dal yn elfen allweddol o waith y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Perthnasol yn cymryd camau gweithredol i'w cefnogi

a'u bod yn cael eu parchu gan grwpiau defnyddwyr. Yn ystod 2021, mae swyddog y Gymdeithas wedi bod yn diweddaru'r canllawiau er mwyn cynnwys cyfarwyddyd newydd ynghylch defnyddio dronau, a'r aflonyddwch posibl y gallant ei achosi mewn ardal warchodedig. Caiff y canllawiau sydd wedi'u diweddaru eu hyrwyddo drwy sianelau Partneriaeth Aber Afon Hafren ar gyfryngau cymdeithasol, ar wefannau'r Gymdeithas a'r Bartneriaeth, trwy'r Awdurdodau Perthnasol ac mewn unrhyw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Y gobaith yw y bydd y canllawiau'n cael eu hyrwyddo trwy'r ymgyrch ar y cyd ar gyfryngau cymdeithasol, a grëwyd ar gyfer swyddogion yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd yng Nghymru, ac y bydd yr ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o aflonyddwch ac o nodweddion arbennig y Safle Morol Ewropeaidd.

## Astudiaethau o Weithgareddau Hamdden

Fel y crybwyllwyd uchod, nodwyd bod aflonyddwch gan weithgareddau hamdden yn broblem allweddol i Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Mae Swyddog y Gymdeithas wedi bod yn canolbwyntio llawer ar gynnal adolygiad o weithgareddau er mwyn deall yr effaith bosibl y gallent fod yn ei chael ar nodweddion y Safle Morol Ewropeaidd.

### *Gweithgareddau hamdden ar y tir*

Mae cam 1 yr astudiaeth hon yn bwriadu crynhoi data sy'n bodoli eisoes ynghylch ystod o weithgareddau hamdden ar y tir (ee gwylio adar), gweithgareddau ar y traeth (ee syrffio barcud, gyrru bygis tywod a gyrru beiciau motocrós) a mynediad i'r arfordir. Casglwyd data am ddwyster, amlder a lleoliad y gweithgareddau hyn ar hyd a gerllaw Aber Afon Hafren, ac ar hyn o bryd mae'r data yn cael ei ddiweddaru ar gyfer 2020. Cafodd yr adroddiad ynghylch cam 1, a oedd yn cyflwyno'r data a gasglwyd, ei adolygu gan is-grŵp o aelodau'r Gymdeithas ac roedd yn sail i'r adroddiad cryno a fydd wedi'i gwblhau erbyn haf 2021.



*Llun ar y dde: Llwybr Hafren yn brysur – llun a dynnwyd yn Oldbury-on-Severn ©Katie Havard-Smith*

### *Palu am abwyd a genweirio hamdden*

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys genweirio oddi ar y lan ac oddi ar gychod, a phalu am abwyd at ddibenion hamdden. Roedd cam 1 yr astudiaeth yn cynnwys casglu a mapio'r wybodaeth sy'n bodoli yn barod am y gweithgareddau hyn, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y data/tystiolaeth. Mae'n debygol y bydd cam 2 yn cynnwys arolygon safle, ac mae disgwyl i'r astudiaeth gael ei chwblhau erbyn 2022. Bydd y dystiolaeth hon yn dangos a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.



*Llun ar y chwith: Genweirio hamdden ar Aber Afon Hafren ©Katie Havard-Smith*

### *Mynediad i’r arfordir*

Mae’r astudiaeth hon yn cynnwys mynediad i’r arfordir gan ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus o amgylch y Safle Morol Ewropeaidd at ddibenion hamdden, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a’r llwybrau fydd yn rhan o Lwybr Arfordir arfaethedig Lloegr. Roedd cam 1 yr astudiaeth yn cynnwys casglu a mapio gwybodaeth am yr hawliau tramwy cyhoeddus sy’n bodoli o amgylch y Safle Morol Ewropeaidd. Mae’n debygol y bydd cam 2 yn cynnwys cwrdd â swyddogion arweiniol ym maes mynediad i’r arfordir a chynnal arolygon safle er mwyn deall pryderon ynghylch lleoliadau penodol a mesurau rheoli sy’n bodoli’n barod. Caiff adroddiad cryno ei lunio erbyn 2022. Bydd y dystiolaeth hon yn dangos a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.



*Hawliau tramwy cyhoeddus yn Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren © Katie Havard-Smith*

### Bioddiogelwch ym Môr Hafren – Beth yw’r risg?

Ym mis Mai 2018, darparodd y Gymdeithas blatfform ar gyfer treialu a ‘phrofi’ pecyn hyfforddiant ynghylch bioddiogelwch prosiect RAPID LIFE, sydd wedi’i fwriadu ar gyfer y grwpiau o ddefnyddwyr sydd fwyaf tebygol o beri i rywogaethau estron goresgynnol ymledu mewn amgylcheddau arfordirol. O ganlyniad i’r trafodaethau hynny, cytunodd y grŵp i gynnal asesiad risg lefel uchel o rywogaethau estron goresgynnol yn Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Yn 2019, gwnaethom lwyddo i gael cyllid i ariannu lleoliad 8 wythnos ar gyfer myfyriwr er mwyn cynorthwyo gyda’r adolygiad hwn. Roedd hynny’n cynnwys casglu’r wybodaeth a oedd ar gael am bresenoldeb a lleoliad rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi ennill eu plwyf yn y Safle Morol Ewropeaidd, y mathau posibl o lwybrau y gallai rhywogaethau o’r fath ymledu ar eu hyd yn y Safle Morol Ewropeaidd a’r ardal gyfagos, a sut y gallai defnydd hamdden a masnachol o’r aber ddylanwadu ar y modd y mae rhywogaethau estron goresgynnol yn ymledu. Cafodd hynny ei ategu ymhellach gan draethawd ymchwil myfyriwr israddedig, a oedd yn cynnig dealltwriaeth (yn seiliedig ar ymatebion i brofforma gan Awdurdodau Perthnasol a data cyhoeddus) o’r llwybrau tebygol a fyddai’n cynnig modd i rywogaethau estron goresgynnol gyrraedd y Safle Morol Ewropeaidd, trwy fodelau ffynhonnell-llwybr-derbynnydd, ac a oedd yn sganio’r gorwel ar gyfer y dyfodol. Mae’r Gymdeithas wedi bod yn gweithio gyda’r Bartneriaeth Tirwedd Lefelau Byw er mwyn hyrwyddo canllaw adnabod rhywogaethau Gwastadeddau Gwent ac er mwyn annog defnyddwyr yr arfordir i adnabod unrhyw rywogaethau estron goresgynnol a welir o fewn Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren, ac adrodd yn eu cylch. Mae Swyddog y Gymdeithas hefyd yn cynrychioli’r grŵp yng nghyfarfodydd Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

## Cyfrannu i waith cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Bu Swyddog y Gymdeithas yn gweithio gyda Swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru er mwyn helpu i gyflawni allbynnau ar gyfer dau brosiect ar y cyd, sef aflonyddu ar rywogaethau a sbwriel morol, a ariennir gan Gynllun Gweithredu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Cyfrannodd Swyddog y Gymdeithas hefyd i'r Rhaglen Gwella Cyflwr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, trwy adolygu camau gweithredu ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren er mwyn helpu i wella cyflwr nodweddion, a oedd yn cynnwys ysgrifennu dwy astudiaeth achos a gaiff eu rhannu â swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill. Roedd y pynciau dan sylw'n cynnwys sefydlu a rheoli'r Gymdeithas a mynd i'r afael ag achosion o aflonyddu yn Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren.

Bydd Swyddog y Gymdeithas yn aml yn mynychu cyfarfodydd â swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill ledled y DU, trwy'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r rhwydwaith yn darparu adnoddau defnyddiol ac yn cynnig cyfle i rannu arfer da.

## Codi ymwybyddiaeth, cyfarfodydd y Gymdeithas a gwaith ymgysylltu allanol

Mae Swyddog y Gymdeithas yn parhau i gefnogi'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol, gan hwyluso cyfarfodydd y Gweithgor a'r Grŵp Rheoli a threfnu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Tachwedd 2021).

Rydym hefyd wedi bod yn bresennol mewn llawer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan barhau i ymgysylltu â grwpiau trwy ddulliau rhithwir, hyrwyddo ein Canllawiau Arfer Da ar gyfer gweithgareddau hamdden, codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol a rhannu gwybodaeth am waith y Gymdeithas.

Mae Swyddog y Gymdeithas hefyd wedi bod yn cynrychioli'r Gymdeithas ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, gan sicrhau bod Safle Morol Ewropeaidd trawsffiniol Aber Afon Hafren wedi'i ystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd morol Cymru a Lloegr.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas, cysylltwch â Katie Havard-Smith Havard-SmithK@cardiff.ac.uk.